# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 29 Medi 2015

Amser: 09. - 11.01

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3236

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jocelyn Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Aled Roberts AC<br>Keith Davies AC (yn lle Julie Morgan AC)<br>Gwyn R Price AC (yn lle Sandy Mewies AC)<br>David Rees AC (yn lle Jenny Rathbone AC) |
| Tystion: | David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Nicola Callow, Cyfarwyddwr Cyllid<br>Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc<br>Peter Curran, Sports Wales<br>Sarah Powell, Chwaraeon Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Buckle (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Matthew Coe (Swyddfa Archwilio Cymru)<br><br>Huw Vaughan Thomas (Swyddfa Archwilio Cymru)<br><br>Steve Wyndham (Swyddfa Archwilio Cymru) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Sandy Mewies oherwydd ei chyfrifoldebau fel un o Gomisiynwyr y Cynulliad (Rheol Sefydlog 18.9). Roedd Gwyn Price yn dirprwyo ar ei rhan.

1.3 Cafwyd ymddiheuriadau gan Julie Morgan a Jenny Rathbone. Dirprwyodd Keith Davies a David Rees ar eu rhan.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2014 - 15: Comisiwn y Cynulliad

3.1 Trafododd y Pwyllgor gyfrifon blynyddol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014-15, gan holi David Melding AC, Comisiynydd y Cynulliad Dros Dro, Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad a Nicola Callow, Cyfarwyddwr Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

3.2 Cytunodd Claire Clancy i anfon yr Adolygiad Archwilio Mewnol o effeithiolrwydd y Comisiwn, ynghyd â'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd ag ef.

3.3 Cytunodd Nicola Callow i anfon manylion am y cyllidebau sydd wedi'u neilltuo i'r meysydd gwaith cenedlaethol Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus a Pleidleisio@16?.

3.3 Cytunodd Claire Clancy i anfon nodyn ar berfformiad incwm gwirioneddol y Pierhead yn erbyn y perfformiad incwm a ragwelwyd.

## 4 Craffu ar Gyfrifon 2014 - 15: Chwaraeon Cymru

4.1 Mae'r tabl a ganlyn yn dangos datganiadau'r Aelodau a wnaed yn ystod yr eitem hon:

| | |
|---|---|
| Jocelyn Davies | Merch yn hyfforddwraig chwaraeon |
| Mike Hedges | Aelod o sawl clwb pêl-droed, rygbi a chriced, ac mae rhai ohonynt wedi cael arian gan y loteri |
| Keith Davies | Aelod o glwb rygbi a Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol<br>Mab yn hyfforddwr rygbi |
| Aled Roberts | Aelod o Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Pêl-droed Wrecsam ac yn llywodraethwr ysgol |
| David Rees | Mae pwll nofio sydd mewn perygl o orfod cau yn ei etholaeth |

4.2 Trafododd y Pwyllgor gyfrifon blynyddol Chwaraeon Cymru ar gyfer 2014-15, gan holi Sarah Powell, Prif Swyddog Gweithredol a Peter Curran, Cyfarwyddwr Cyllid, Chwaraeon Cymru.

## 5 Gwaith Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori: Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer 2014-15

5.1 Nododd yr Aelodau Adroddiad Blynyddol cyntaf y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer 2014-15 ynghyd â'r canllawiau a'r fframweithiau.

5.2 Cytunodd yr Aelodau y dylai Adroddiad Etifeddiaeth y Pwyllgor awgrymu bod y Pwyllgor nesaf yn ystyried y gwaith y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu ei wneud ar gaffael cyhoeddus yn y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

## 6 Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru - Caerdydd i Ynys Môn: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru

6.1 Nododd yr Aelodau ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor a sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol yn ei gylch.

6.2 Cytunodd yr Aelodau y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o eglurhad ynglŷn ag ymateb y llywodraeth i argymhellion yr Adroddiad.

## 7 Ymateb i Ddiwygio Lles yng Nghymru: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru

7.1 Nododd yr Aelodau ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor. Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru wrth y Pwyllgor y byddai'n ysgrifennu at y Cadeirydd yn ddiweddarach yr wythnos hon gyda'i sylwadau.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

8.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 9 Craffu ar Gyfrifon 2014 - 15: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

9.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.